Atodiad 3

# Ymateb y rheolwyr

**Teitl yr adroddiad:** **Llamu Ymlaen – Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad cwblhau:** **Medi 2022**

**Cyfeirnod y ddogfen:** **3010A2022**

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | **Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**<br>Mae angen i'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan adeiladu ar y profiad o'r pandemig, wrth iddo: | | Bydd yr egwyddor o ddatblygu'n gynaliadwy yn ganolog i'r holl ystyriaethau yng nghyd-destun diweddaru ac adolygu'r cynlluniau a'r strategaethau isod;<br>1. Adolygiad diweddaraf o'r Strategaeth Asedau | Mai 2023 | Carys Fon Williams |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | • ddatblygu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer trefn a maint ei asedau tir ac adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, canolig a hir;<br>• datblygu strategaethau ar gyfer asedau a'r gweithlu; a<br>• datblygu cynlluniau cyflawni wedi'u costio. | | 2. Cynllun Asedau Tir ac Eiddo i'w gynnwys fel blaenoriaeth gwella corfforaethol arfaethedig yn y Cynllun Cyngor Pum Mlynedd nesaf<br>3. Cynllun Ffordd Gwynedd 2022-2027 (sef Cynllun Datblygu'r Sefydliad corfforaethol) i'w fabwysiadu gan y Cabinet.<br>4. Cynllun Gweithio i'r Dyfodol y Cyngor i'w lunio yn dilyn cyfnod treialu gweithio hybrid (sydd yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2022) | Ebrill 2023 – Mawrth 2028<br><br>Ionawr 2023<br><br>Mai 2023 | Carys Fon Williams<br><br>Geraint Owen<br><br>Geraint Owen |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| A2 | **Data a Meincnodi**<br>Datblygu'r defnydd o ddata a meincnodi i lywio prosesau cynllunio, pennu'r gyllideb a mesur llwyddiant tymor hwy ei fentrau ar gyfer asedau a'r gweithlu. | | Mae'r Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi'i sefydlu er mwyn arwain ar lunio Strategaeth Digidol y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Mae tri is-ffrwd gwaith wedi'i sefydlu hyd yma sef;<br>Data<br>Gweinyddiaeth<br>Cyswllt Cwsmer<br><br>Mae'r Is-Grŵp Data yn cael ei arwain gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ac | Mehefin 2023<br><br>Mehefin 2023 – Mawrth 2028 | Geraint Owen/Huw Ynyr<br><br>Ian Jones |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | eisoes wedi sefydlu ei amcanion, sef;<br>• Sicrhau bod y Cyngor yn glir o'i anghenion gwybodaeth fel bod y data a gesglir yn bwrpasol i anghenion y Cyngor a'r trigolion yr ydym yn eu gwasanaethu<br>• Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'r data sydd ganddo i;<br>- Gwerthuso a mesur effaith ymyraethau<br>- Gwneud penderfyniadau da ar sail tystiolaeth<br>- Gwella perfformiad gwasanaethau ar gyfer trigolion Gwynedd | | |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | - Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau<br>• Cryfhau y cyswllt gyda'r byd ehangach er mwyn galluogi'r Cyngor i gyfrannu at ddatblygiadau cenedlaethol a rhanbarthol mewn ffordd effeithiol<br>• Sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn hyderus wrth ymdrin a data ac yn gallu ei gasglu, ei ddehongli a'i rannu mewn ffurf cyson a chywir. Hyn i gynnwys bod data yn cael ei weld fel adnodd sefydliadol yn hytrach na chofnod hanesyddol | | |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Arfogi'r Cyngor gyda'r gallu i ddal data mewn ffordd diogel a chynaliadwy. Hyn i gynnwys hwyluso'r gallu i wasanaethau a trigolion gael gwybodaeth ar alw | | |